

Canllawiau ar ddiogelwch ac oes silff bwyd oer sydd wedi'i becynnu dan wactod (*vacuum packed*) neu drwy addasu'r atmosffer (*modified atmosphere*) mewn perthynas â *Clostridium botulinum* nad yw'n broteolytig – Cig eidion, cig oen a phorc ffres wedi'u hoeri

Dyddiad lansio: 1 Hydref 2020

Ymateb erbyn: 11 Tachwedd 2020

I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb fwyaf?

Awdurdodau lleol, cymdeithasau masnach cig, gweithgynhyrchwyr cig a busnesau bwyd sydd â diddordeb mewn cig ffres oer sydd wedi'i becynnu dan wactod neu drwy addasu'r atmosffer.

Pwnc yr ymgynghoriad

Adolygiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban o ganllawiau ar ddiogelwch ac oes silff bwyd oer sydd wedi'i becynnu dan wactod a thrwy addasu'r atmosffer mewn perthynas â *Clostridium botulinum* nad yw'n broteolytig mewn perthynas ag oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer.

Pwrpas yr ymgynghoriad

Ceisio barn rhanddeiliaid ar sut y dylai 'Canllawiau'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban ar ddiogelwch ac oes silff bwyd wedi'i oeri a'i becynnu dan wactod neu drwy addasu'r atmosffer mewn perthynas â *Clostridium botulinum* nad yw'n broteolytig' i fod yn berthnasol i oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer.

Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

E-bost: meathygiene@food.gov.uk

Enw: Mary McGlinchey

Tîm: Polisi Hylendid Cig

Manylion yr ymgynghoriad

Acronymau

ACMSF – Pwyllgor Cyngori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd

C. botulinum – *Clostridium botulinum* nad yw'n broteolytig

UE – Yr Undeb Ewropeaidd

ASB – Asiantaeth Safonau Bwyd

FSS – Safonau Bwyd yr Alban

VP/MAP – wedi'i becynnu dan wactod ac wedi'i becynnu drwy addasu'r atmosffer

Cyflwyniad

1. Cyhoeddwyd canllawiau arfer gorau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban ar [ddiogelwch ac oes silff bwyd wedi'i oeri sydd wedi becynnu dan wactod neu drwy addasu'r atmosffer mewn perthynas â *Clostridium botulinum* nad yw'n broteolytig](#) yn 2008 a chawsant eu diweddaru ddiwethaf yn 2017. Roedd y diweddariad i'r canllawiau yn 2017 yn ei gwneud yn glir bod y canllawiau'n berthnasol i gig ffres oer sydd wedi'i becynnu dan wactod (VP) ac sydd wedi'i becynnu trwy addasu'r atmosffer (MAP). Mae'r canllawiau'n argymhell bod uchafswm oes silff o 10 diwrnod yn cael ei sefydlu ar gyfer bwyd ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP yn yr ystod tymheredd o 3°C i 8°C, lle na ddefnyddir mesurau rheoli eraill mewn perthynas â'r risg o *C. botulinum*.
2. Mae'r ASB yn cynnal adolygiad o'r canllawiau arfer gorau mewn perthynas ag oes silff ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP.
3. Mae'r ASB hefyd yn adolygu'r canllawiau yn unol â gofynion hygyrchedd, ac mewn perthynas â Brexit i sicrhau bod y canllawiau'n addas ar gyfer pan fydd y Deyrnas Unedig (DU) yn gadael y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

Prif gynigion:

4. Gofynnir am sylwadau gan randdeiliaid i lywio adolygiad o [ganllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban ar ddiogelwch ac oes silff bwyd sydd wedi'i becynnu dan wactod neu drwy addasu'r atmosffer mewn perthynas â *Clostridium botulinum* nad yw'n broteolytig](#) mewn perthynas â:
 - Pwynt ymgynghori A – Er mwyn adolygu'r oes silff 10 diwrnod a argymhellir mewn perthynas â chig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP yn yr ystod tymheredd o 3°C i 8°C fel y darperir ar ei gyfer yn y canllawiau hyn.

- Pwynt ymgynghori B – Gwneud rhai newidiadau i'r canllawiau fel yr argymhellwyd ym mis Ionawr 2020 gan is-grŵp ACMSF ar *C. botulinum*.
- Pwynt ymgynghori C – Dileu unrhyw gyfeiriadau yn y canllawiau sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd (UE) na fydd yn berthnasol mwyach ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.
- Pwynt ymgynghori D – Gwella hygyrchedd y canllawiau i ddefnyddwyr yn unol â gofynion hygyrchedd cyrff cyhoeddus.

Y cynigion yn fanwl

Pwynt Ymgynghori A: Oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi'u pecynnu dan wactod neu drwy addasu'r atmosffer mewn perthynas â *C. botulinum*

5. Prif bwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio sylwadau er mwyn llywio adolygiad o'r canllawiau mewn perthynas ag oes silff cig eidion, cig oen a phorc oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP yn yr ystod tymheredd o 3°C i 8°C lle nad oes mesurau rheoli eraill ar waith mewn perthynas â'r risg o *C. botulinum*.
6. Mae'r adolygiad hwn yn berthnasol i gig oen, cig eidion a phorc ffres sydd heb gynhwysion ychwanegol ac sydd heb fod yn destun prosesu pellach y tu hwnt i dorri, pecynnu, oeri, rhewi a rhewi cyflym yn unig. Nid yw'n berthnasol i unrhyw gig eidion, cig oen neu borc sy'n destun prosesu pellach fel briwio (*mincing*), coginio neu gymysgu ag unrhyw gynhwysion eraill fel perlysiau, sbeisys neu halen halltu.

Cefndir

7. Mae'r bacteriwm *C. botulinum* nad yw'n broteolytig yn cynhyrchu tocsin pwerus iawn mewn bwyd sy'n achosi botwliaeth salwch difrifol, math o wenwyn bwyd sy'n gallu lladd. Ym 1992 cyhoeddodd y Pwyllgor Cyngori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd (ACMSF) '[Adroddiad ar Becynnu dan Wactod a Phrosesau Cysylltiedig](#)' a oedd yn ystyried y risg o *C. botulinum*.
8. Yn 2008 cyhoeddodd yr ASB y 'Canllawiau arfer gorau ar ddiogelwch ac oes silff bwyd wedi'i oeri ac sydd wedi'i becynnu dan wactod neu drwy addasu'r atmosffer mewn perthynas â *Clostridium botulinum* nad yw'n broteolytig', a oedd yn seiliedig ar Adroddiad 1992 ACMSF. Roedd y canllawiau arfer gorau yn cynnwys cyngor ACMSF y dylai oes silff bwyd VP/MAP yn yr ystod tymheredd 3°C i 8°C fod yn 10 diwrnod ar y mwyaf, pan na ellir nodi ffactorau rheoli penodedig eraill ar gyfer *C. botulinum*.
9. Mae'r canllawiau'n cynnwys cyngor arfer gorau ar sut i gynhyrchu bwyd oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP yn ddiogel.
10. Diweddarwyd y canllawiau yn 2017 a'i gwneud yn glir bod y canllawiau'n berthnasol i fwydydd parod i'w bwyta a bwydydd amrwd, gan gynnwys cig ffres.

Adolygu'r canllawiau

11. Yn dilyn sylwadau gan y diwydiant cig ffres, mae'r ASB yn adolygu'r canllawiau ymhellach mewn perthynas ag oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP. Mae'r diwydiant cig wedi cynghori nad oes unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE yn defnyddio, ac ni wyddys bod unrhyw wlad arall yn defnyddio, oes silff o 10 diwrnod ar gyfer cig eidion, cig oen neu porc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP mewn perthynas â'r risg o *C. botulinum*. Mae gan y diwydiant cig bryderon tebyg am yr oes silff 13 diwrnod y mae'n credu ei fod yn seiliedig ar batrymau oes silff cyfredol a allai fod wedi cael eu dylanwadu arnynt gan yr oes silff 10 diwrnod a argymhellir yng nghanllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban.
12. Mae argymhelliad ACMSF o 13 diwrnod yn seiliedig ar ganfyddiadau is-grŵp ACMSF a adolygodd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y diwydiant a thystiolaeth wyddonol arall sy'n sail i ganllaw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban.
13. Nid yw adolygiadau a gynhaliwyd wedi canfod unrhyw dystiolaeth o achosion o fotwliaeth yn rhyngwladol sy'n gysylltiedig ag oes silff cig o'r fath mewn gwledydd eraill yn absenoldeb cam-drin tymheredd rhwng 1985 a Gorffennaf 2020.
14. Nod yr adolygiad o'r canllawiau ar oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP yw asesu pa mor briodol yw'r canllawiau arfer gorau o ran helpu gyda chymhwyso oes silff sydd wedi'i dilysu'n briodol (hynny yw, dyddiadau 'defnyddio erbyn' ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP mewn perthynas â *C. botulinum*).
15. Bydd dogfen rheoli risg yn cael ei pharatoi i lywio'r adolygiad, a fydd yn cynnwys tystiolaeth a ddarperir gan:
 - [Adroddiad is-grŵp ACMSF ar *C. botulinum*](#) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020. Comisiynwyd adolygiad ACMSF o dystiolaeth wyddonol ddiweddar ar *C. botulinum* gan yr ASB fel rhan o'r adolygiad hwn. Daeth yr is-grŵp i'r casgliad, yn seiliedig ar arfer cyfredol y diwydiant, y gellid codi'r oes silff uchaf a argymhellir o 10 diwrnod i 13 diwrnod ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP.
 - Adolygiad i weld a fu unrhyw achosion o fotwliaeth yn y Deyrnas Unedig neu'n rhyngwladol yn gysylltiedig â chig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP lle nad oedd y tymheredd wedi'i gamdefnyddio.
 - Adolygiad o'r safonau rhyngwladol a safonau cenedlaethol trydydd gwledydd a weithredwyd ar gyfer oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP gan gynnwys:
 - Manylion y safonau, y ddeddfwriaeth a'r canllawiau a gymhwyswyd gan wledydd eraill ar oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP.
 - Manylion sut mae gwledydd eraill yn ystyried risg *C. botulinum* a'r angen am fesurau rheoli i fynd i'r afael â'r risg honno mewn perthynas â chig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP.

- Mewnbwn o'r ymgynghoriad hwn.

16. Mae'r dewisiadau rheoli risg canlynol wedi'u nodi i'w hystyried, ac rydym ni'n ceisio eich adborth ar oblygiadau ymarferol y dewisiadau hyn i lywio datblygiad y ddogfen rheoli risg:

- **Dewis 1:** Gwneud dim. Gadael y canllawiau heb eu newid a pharhau i argymell oes silff 10 diwrnod ar y mwyaf yn y canllawiau ar gyfer cig ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP.
- **Dewis 2:** Diwygio'r canllawiau i argymell uchafswm oes silff 13 diwrnod (yn lle 10 diwrnod) ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP fel yr argymhellir gan yr ACMSF.
- **Dewis 3:** Diwygio canllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban i beidio â bod yn berthnasol i gig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP/MAP mwyach, gan alluogi dull rheoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae busnesau bwyd yn gyfrifol am sicrhau bod bwyd a roddir ar y farchnad yn ddiogel, a byddai canllawiau a arweinir gan y diwydiant yn cefnogi busnesau bwyd i ddangos diogelwch yr oes silff a gymhwysir ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP.

Pwynt Ymgynghori B: Newidiadau i'r canllawiau a argymhellir gan is-grŵp ACMSF

17. Argymhellodd is-grŵp ACMSF ar *C. botulinum* yn ei [adroddiad](#) rai diwygiadau i'r canllawiau ym mis Ionawr 2020. Derbyniwyd yr argymhellion gan yr ACMSF llawn yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2020, ac fe'u cyhoeddwyd yn adroddiad yr is-grŵp ym mis Chwefror 2020.

18. Cynigir y dylid gwneud y diwygiadau canlynol a argymhellir gan is-grŵp ACMSF i ganllawiau'r ASB Safonau Bwyd yr Alban o dan bwynt ymgynghori B:

- **Profion herio** (*challenge testing*) – Argymhellodd yr is-grŵp fod canfod tocsin yn ofyniad lleiaf ar gyfer profion herio, a bod mesur cyfrifon hyfyw (*viable counts*) yn werthfawr o ran sicrhau diogelwch gyda chynghor arbenigol priodol. Mae'r is-grŵp yn cydnabod nad yw'r modelau rhagfynegol (*predictive models*) cyfredol yn modelu cynhyrchiant tocsinau ac felly mae'n argymhell y dylid cynnal yr holl fodelu rhagfynegol yn dilyn cynghor arbenigol. Cytunodd yr is-grŵp fod y biobrawf llygod yn parhau fel y 'safon aur' ar gyfer canfod BoNT (botulinum niwrotocsin) a dylai dulliau canfod eraill ddangos o leiaf yr un penodoldeb a sensitifrwyd.
- **Y terfyn oes silff uchaf ar gyfer bwyd sydd â ffactorau rheoli ar waith** – Ar hyn o bryd nid yw canllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban yn darparu unrhyw ganllawiau ar uchafswm oes silff ar gyfer bwyd sy'n bodloni'r seiliau dros oes silff hirach. Yng ngoleuni'r dystiolaeth ar lysosym (*lysozyme*), argymhellodd yr is-grŵp y dylid cyfyngu hyd oes silff bwyd sy'n cael ei drin â gwres o 90°C am ddeg munud (neu gyfwerth) i 42 diwrnod, oni bai y gellir dangos nad yw'r bwyd yn cynnwys lysosym. Argymhellodd yr is-grŵp hefyd y dylid ceisio cynghor arbenigol os dymunir oes silff sy'n fwy na 42 diwrnod.

- **Ffactorau rheoli** – Trafodwyd y pum pwynt bwled ym mharagraff 15, tudalen 9 yng nghanllawiau presennol yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban sy'n manylu ar y seiliau addas ar gyfer oes silff hirach gan yr is-grŵp. Argymhellodd yr is-grŵp y dylid adolygu'r pwynt bwled olaf i werthfawrogi nad yw gwres o reidrwydd yn ffactor rheoli ym mhob achos. Ar hyn o bryd, mae'r pwynt bwled yn darllen: "*cyfuniad o ffactorau gwres a chyffeithio (preservative) y gellir dangos yn gyson eu bod yn atal tyfiant a chynhyrchiant tocsinau gan C. botulinum nad yw'n broteolytig*". Argymhellodd yr is-grŵp y dylid newid y geiriad "*ffactorau gwres a chyffeithio*" i "*ffactorau rheoli*".

Pwynt Ymgynghori C: Adolygu cyfeiriadau yn y canllawiau sy'n ymwneud â'r UE o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE

19. O ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE, rhaid adolygu dogfennau canllaw'r llywodraeth i gael gwared ar gyfeiriadau sy'n ymwneud â'r UE na fydd bellach yn berthnasol i'r DU ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben ddiwedd 2020.
20. Dim ond ychydig o gyfeiriadau at yr UE sydd yng nghanllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban ar ddiogelwch ac oes silff bwyd wedi'i oeri sydd wedi'i becynnu dan wactod neu drwy addasu'r atmosffer mewn perthynas â *Clostridium botulinum* nad yw'n broteolytig. Nid yw'r ASB o'r farn y bydd dileu'r cyfeiriadau hyn yn cael effaith niweidiol ar gynnwys y canllawiau.

Pwynt Ymgynghori D: Hygyrchedd y canllawiau i ddefnyddwyr

21. Bydd y canllawiau'n cael eu hadolygu i wella eu hygyrchedd i ddefnyddwyr yn unol â'r gofynion hygyrchedd ar gyfer cyrff cyhoeddus

Effeithiau

Pwynt Ymgynghori A: Oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi'u pecynnu dan wactod neu drwy addasu'r atmosffer mewn perthynas â C. botulinum

22. Ar hyn o bryd, mae canllawiau arfer gorau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban yn argymhell y dylid rhoi oes silff 10 diwrnod i gig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP/MAP mewn perthynas â'r risg o *C. botulinum*.
23. Tybir y bydd angen i fusnesau bwyd sy'n cynhyrchu ac yn pecynnu bwyd oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP ymgysylltyddo ag unrhyw ganllawiau diwygiedig, ac felly bydd cost ymgysylltyddo untro yn gysylltiedig â'r canllawiau diwygiedig terfynol. Rydym ni'n amcangyfrif y bydd unrhyw gost ymgysylltyddo yn arferol ac felly byddwn yn asesu'r effaith derfynol yn unol â model asesu safonol yr ASB ar gyfer adolygu effaith canllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban.

24. Gan fod y canllawiau yn trafod arfer gorau yn unig, nid yw hwn yn ofyniad y mae'n rhaid i fusnesau ei ddilyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y bwyd y maent yn ei roi ar y farchnad yn ddiogel ac felly mae'n ofynnol iddynt ddangos tystiolaeth a phroffion gwyddonol digonol i gefnogi eu systemau rheoli diogelwch bwyd ar gyfer unrhyw oes silff y maent yn ei rhoi i gig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP y tu hwnt i'r terfynau a roddir yn y canllawiau arfer gorau.
25. Nid ydym ni'n rhagweld unrhyw gostau ar fusnesau nac awdurdodau lleol, ac eithrio cost ymgwyfarwyddo untro. Fodd bynnag, byddem ni'n gwerthfawrogi barn rhanddeiliaid ar hyn.
26. Rydym ni'n cymryd yn ganiataol y byddai buddion i fusnesau pe bai'r oes silff a argymhellir yn cael ei hymestyn o dan ddewis 2. Byddem yn gwerthfawrogi safbwyntiau rhanddeiliaid ar y buddion disgwylidig sy'n gysylltiedig ag ymestyn yr oes silff a argymhellir ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP.
27. Os yw canllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban yn cael eu diwygio fel nad ydynt bellach yn berthnasol i gig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP o dan ddewis 3, a bod canllawiau dan arweiniad y diwydiant yn cael eu cyflwyno, gallai olygu costau i fusnesau wrth ddatblygu'r canllawiau ar sut y dylai busnesau bwyd ddangos diogelwch yr oes silff a roddir ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP a sicrhau ei fod yn rhoi lefel ddigonol o sicrwydd ar gyfer diogelwch yr oes silff a roddir. Byddem yn gwerthfawrogi safbwyntiau rhanddeiliaid ar y costau a'r buddion disgwylidig sy'n gysylltiedig â datblygu a chymhwyso canllawiau'r diwydiant.

C. Gofynnir am dystiolaeth gan rhanddeiliaid ar b'un a fyddai costau neu fuddion o:

- Ymestyn yr oes silff 10 diwrnod a argymhellir ar hyn o bryd hyd at yr oes silff 13 diwrnod fel yr argymhellwyd gan yr ACMSF ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP. (Dewis 2)
- Cyflwyno canllawiau dan arweiniad y diwydiant ar sut y dylai busnesau bwyd ddangos diogelwch yr oes silff a gymhwysir ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP, yn lle'r canllawiau cyfredol sy'n berthnasol. (Dewis 3)

Pwynt Ymgynghori B: Newidiadau i'r canllawiau a argymhellir gan is-grŵp ACMSF

28. Ni ddisgwylir y bydd y diwygiadau i ganllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban a amlinellir ym mharagraff 18 uchod ac a argymhellir gan is-grŵp ACMSF ar C. *botulinum* yn ei [adroddiad](#) yn arwain at gostau ychwanegol i fusnesau, ond byddem yn gwerthfawrogi barn rhanddeiliaid ar y dybiaeth hon. Byddem yn gwerthfawrogi safbwyntiau ar unrhyw fuddion disgwylidig.

C. Gofynnir am dystiolaeth gan rhanddeiliaid ar b'un a fyddai costau neu fuddion o'r diwygiadau i ganllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban a amlinellir ym mharagraff 18 uchod.

Pwynt Ymgynghori C: Adolygu cyfeiriadau yn y canllawiau sy'n ymwneud â'r UE o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE

29. Nid ydym yn disgwyl unrhyw effaith ar fusnesau yn sgil cael gwared ar gyfeiriadau yn y canllawiau sy'n ymwneud â'r UE na fydd yn berthnasol i'r DU mwyach ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020 gan mai dim ond diwygiad technegol i'r canllawiau yw hwn.

Pwynt Ymgynghori D: Hygyrchedd y canllawiau i ddefnyddwyr

30. Bydd newidiadau i'r canllawiau yn unol â gofynion hygyrchedd swyddogol yn galluogi mwy o randdeiliaid i gael mynediad at y canllawiau a'u deall, sy'n sicrhau bod pob gweithredwr busnes bwyd yn cael ei drin yn deg ac yn cael yr wybodaeth berthnasol i gyflawni ei gyfrifoldebau yn llawn er mwyn sicrhau diogelwch bwyd. Disgwylir felly i'r newidiadau gael effaith gadarnhaol ar iechyd y cyhoedd.
31. **Costau Ymgysylltu Untro:** Tybir y bydd busnesau bwyd sy'n cynhyrchu ac yn pacio bwyd oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP am ymgysylltu ag unrhyw ganllawiau diwygiedig ac felly bydd cost ymgysylltu â'r canllawiau diwygiedig terfynol a gyhoeddwyd. Rydym ni'n amcangyfrif y bydd unrhyw gost ymgysylltu yn arferol ac felly byddwn yn asesu'r effaith derfynol yn unol â model asesu safonol yr ASB ar gyfer adolygu effaith canllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban.

Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

32. Mae'r ASB yn gweithio gyda'r diwydiant i ddeall yn well y materion sy'n ymwneud ag oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP/MAP, yn enwedig o ran yr oes silff 10 diwrnod a argymhellir yn y canllawiau. Mae'r Gweithgor ar y canllawiau *C. botulinum* yn cynnwys cynrychiolwyr yr ASB, Safonau Bwyd yr Alban, a chymdeithasau masnach, a bydd yn cynnwys cynrychiolydd o'r awdurdodau lleol.
33. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd rhanddeiliaid ar y Gweithgor yn parhau i ymgysylltu mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r canllawiau. Bydd sylwadau a wneir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn ystod yr adolygiad o'r canllawiau mewn perthynas â chig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP.

Cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

Pwynt ymgynghori A: Oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP

C1: A oes gennych unrhyw chi sylwadau ar yr adolygiad o'r canllawiau *C. botulinum* mewn perthynas ag oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP, ac ar y dewisiadau canlynol a awgrymir ar gyfer diwygio'r canllawiau hyn?

- **Dewis 1:** Gwneud dim. Gadael y canllawiau heb eu newid a pharhau i argymhell oes silff 10 diwrnod ar y mwyaf yn y canllawiau ar gyfer cig ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP.
- **Dewis 2:** Diwygio'r canllawiau i argymhell uchafswm oes silff 13 diwrnod (yn lle 10 diwrnod) ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP fel yr argymhellir gan yr ACMSF.
- **Dewis 3:** Diwygio canllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban i beidio â bod yn berthnasol i gig eidion, cig oen a phorc ffres wedi'i oeri VP/MAP mwyach, gan alluogi dull rheoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae busnesau bwyd yn gyfrifol am sicrhau bod bwyd a roddir ar y farchnad yn ddiogel, a byddai canllawiau dan arweiniad y diwydiant yn cefnogi busnesau bwyd i ddangos diogelwch yr oes silff a gymhwysir ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP.

C2: A fydddech cystal â darparu tystiolaeth ar b'un a fyddai costau neu fuddion o ymestyn yr oes silff 10 diwrnod gyfredol a argymhellir hyd at yr oes silff uchaf o 13 diwrnod fel yr argymhellir gan yr ACMSF ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP.

Pwynt ymgynghori B: Newidiadau i'r canllawiau a argymhellir gan is-grŵp ACMSF ar *C. botulinum*

C3: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar wneud y diwygiadau arfaethedig canlynol i'r canllawiau fel yr argymhellir gan is-grŵp ACMSF ar *C. botulinum*?

- **Profion herio** – bod canfod tocsin yn ofyniad lleiaf ar gyfer profion herio, a bod mesur cyfrifon hyfyw (*viable counts*) yn werthfawr o ran sicrhau diogelwch gyda chyngor arbenigol priodol.
- **Sefydlu terfyn oes silff uchaf ar gyfer bwyd gyda ffactorau rheoli ar waith** – cyfyngu hyd oes silff bwyd sy'n cael ei drin â gwres o 90°C am ddeg munud (neu gyfwerth) i 42 diwrnod, oni bai y gellir dangos nad yw'r bwyd yn cynnwys lysosym. Argymhell y dylid ceisio cyngor arbenigol os dymunir oes silff sy'n fwy na 42 diwrnod.
- **Ffactorau rheoli** – diwygio geiriad pwynt bwled olaf y pum pwynt bwled ar dudalen 9, paragraff 15 yng nghanllawiau presennol yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gan

fanylu ar y rhesymau addas ar gyfer oes silff hirach. Ar hyn o bryd, mae'r pwynt bwled olaf yn darllen: *"cyfuniad o ffactorau gwres a chyffeithio (preservative) y gellir dangos yn gyson eu bod yn atal tyfiant a chynhyrchiant tocsinau gan C. botulinum nad yw'n broteolytig"*. Diwygio'r geiriad *"ffactorau gwres a chyffeithio"* i ddarllen *"ffactorau rheoli"*, gan nad yw gwres o reidrwydd yn ffactor rheoli ym mhob achos.

Pwynt ymgynghori C: Diweddarau cyfeiriadau sy'n gysylltiedig â'r UE

C4: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig i adolygu cyfeiriadau yn y canllawiau sy'n ymwneud â'r UE o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE?

Pwynt ymgynghori D: Hygyrchedd y canllawiau i ddefnyddwyr.

C5: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y bwriad i wella hygyrchedd i'r rheiny sy'n defnyddio'r canllawiau?

Effaith

C6: Byddem yn croesawu eich barn ar ein hasesiad o effeithiau'r pwyntiau ymgynghori arfaethedig A, B, C a D a nodir yn yr ymgynghoriad hwn. Cofiwch gynnwys tystiolaeth, lle bo hynny'n bosibl, i gefnogi'ch safbwyntiau.

Yn arbennig:

C6(a): Ar gyfer pwynt ymgynghori A, gofynnir am dystiolaeth gan randdeiliaid ar b'un a fyddai costau neu fuddion o:

- Ymestyn yr oes silff 10 diwrnod a argymhellir ar hyn o bryd hyd at yr oes silff 13 diwrnod fel yr argymhellwyd gan yr ACMSF ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP. (Dewis 2)
- Os yw canllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban yn cael eu diwygio i beidio â bod yn berthnasol i gig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP mwyach, a bod canllawiau'n cael eu datblygu dan arweiniad y diwydiant ar sut y dylai busnesau bwyd ddangos diogelwch yr oes silff a gymhwysir ar gyfer y cynhyrchion hyn. (Dewis 3)

C6(b): Ar gyfer pwynt ymgynghori B, gofynnir am dystiolaeth gan randdeiliaid ar b'un a fyddai costau neu fuddion o'r diwygiadau i ganllawiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban a amlinellir ym mharagraff 18 uchod fel yr argymhellir gan is-grŵp yr ACMSF ar *C. botulinum*.

Ymatebion

34. Mae angen i ymatebion ddod i law erbyn **11 Tachwedd 2020**. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli).
35. Dylid anfon ymatebion at Mary McGlinchey dros e-bost at meathygiene@food.gov.uk
36. Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Mary McGlinchey
Cyfarwyddiaeth Polisi Bwyd

Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam ein bod ni'n casglu eich data personol?

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn ni'n ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel bo'r angen er mwyn cyflawni'n effeithiol dasg sydd er budd y cyhoedd, hynny yw, ymgynghoriad.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr UE. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy <https://ico.org.uk/>, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at: informationmanagement@food.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y swyddog cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi](#).